Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais am ad-daliad treth cerbyd V14W
## NEU ddychwelyd disg treth ddi-dâl

**V14W**

**Darllenwch y nodiadau dros y ddalen cyn llenwi'r ffurflen hon.**
Ysgrifennwch yn glir mewn **inc du** gan ddefnyddio **PRIFLYTHRENNAU** – peidiwch â defnyddio stamp cyfeiriad.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/apply-for-tax-disc-refund-form-v14**

This form is obsolete. DO NOT fill in and send to DVLA

## 1 A oes gennych hawl i gael ad-daliad?
(gweler nodyn A dros y ddalen)

**Ni chewch ad-daliad heb fod un o'r isod yn bodoli:**

Chi yw ceidwad cofrestredig cyfredol neu ddiweddaraf y cerbyd ac:

- eich bod wedi gwerthu, trosglwyddo neu allforio'r cerbyd yn ddiweddar. Os nad ydych eisoes wedi rhoi'r wybodaeth i DVLA dylech amgáu adran briodol y Dystysgrif Cofrestru (V5CW) gyda'r cais hwn.

Chi yw'r ceidwad cofrestredig presennol ac:

- rydych yn cadw'r cerbyd oddi ar y ffordd gyhoeddus ac ni fyddwch yn ei drethu a fewn y 21 dydd nesaf. RHAID I CHI WNEUD HOS TRWY GWBLHAU ADRAN 3 GYFERBYN, neu
- mae'r cerbyd wedi ei sgrapio gan Gyfleuster Trin Awdurdodedig, neu
- rydych wedi newid dosbarth treth y cerbyd i ddosbarth treth ddi-dâl (megis 'Anabl'), neu
- mae'r cerbyd wedi ei ddwyn (gweler nodyn A dros y dudalen).

## 2 Eich manylion (rhaid i'ch enw gyfateb yn union â'r enw a ddangosir ar y Dystysgrif Cofrestru (V5CW))

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (Dr, enghraifft) ________

Enw (enwau) cyntaf **neu** Gwmni: 7

Cyfenw: 8

**At ddefnydd cwmnïau yn unig**
Rhif fflyd DVLA/DVA

Rhif y Tŷ ☐☐☐☐ Cyfeiriad:

Tref Bost: 9

Cod Post: ☐☐☐☐☐☐☐☐ 10

**Rhif cofrestru'r cerbyd y mae'r ad-daliad ar ei gyfer:** ☐☐☐☐☐☐☐ 2

**PWYSIG:**

**Cyn ichi lynu'ch disg dreth yma, rhaid ichi gyflawni'r amodau yn Adran 1 a llofnodi Adran 4.**

**Chewch chi ddim ad-daliad os yw'r ddisg dreth wedi dod i ben, neu os oes llai nag un mis calendr ar ôl arni neu os ydych yn aros am un newydd wedi trosglwyddo plât.**

**Defnyddiwch dâp clir lle dangosir hynny neu defnyddiwch lud papur i lynu'r ddisg dreth yma. (PEIDIWCH Â DEFNYDDIO STWFFWL).**

Rhowch dâp clir yma

Rhowch dâp clir yma

**Os nad oes gennych ddisg dreth, llenwch y ffurflen 'Cais am ad-daliad treth cerbyd pan fydd y ddisg dreth ar goll' (V33W), sydd ar gael gan DVLA.**

## 3 Hysbysiad Oddi-ar-y-Ffordd Statudol (HOS) (gweler nodiadau A ac E dros y ddalen)

**Os ydych am ddweud wrth DVLA eich bod yn cadw'r cerbyd oddi ar y ffordd gyhoeddus ac mai chi yw'r ceidwad cofrestredig, rhowch 'X' yn y blwch isod:**

☐ 11

Nid oes rhaid gwneud HOS os ydych wedi gwerthu, trosglwyddo, sgrapio neu allforio'r cerbyd.

Mae gwneud HOS a defnyddio neu gadw'r cerbyd ar ffordd gyhoeddus yn drosedd.

## 4 Datganiad ar gyfer ad-daliad

**Rwy'n ildio'r ddisg dreth hon ac yn deall os na fyddaf yn derbyn os** nad wyf yn cyflawni'r amodau yn adran 1, na chaf ad-daliad ac na ddychwelir y ddisg dreth ataf.

Eich llofnod:

Dyddiad:

**Mae angen caniatáu chwe wythnos cyn cysylltu â ni os nad ydych yn derbyn eich ad-daliad.**

Rhif Ffôn cyswllt: (Does dim rhaid i chi ei roi.)

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

## 5 Dychwelyd disg treth ddi-dâl

Os oes gennych ddisg treth di-dâl bydd angen i chi ei ddychwelyd. Atodwch ef i'r ffurflen hon a rhoi gwybod i ni os ydych wedi:

- gwerthu, trosglwyddo neu allforio'r cerbyd trwy gwblhau'r adran berthnasol o'r V5CW, neu
- os ydych yn cadw'r cerbyd oddi ar y ffordd gyhoeddus dylech wneud HOS trwy roi 'X' ym mlwch 11 yn adran 3 uchod.

**Stamp dyddiad**

3VC

4DR

5D

6E

7P

8A

9T

10M

**Peidiwch ag ysgrifennu yn y rhan las**

V14W-0214

**Darllenwch y nodiadau hyn cyn llenwi'r ffurflen.**

**Peidiwch â defnyddio llungopi o'r ffurflen hon.**

**Noder fe ellir hefyd defnyddio'r ffurflen yma i ddychwelyd disgiau di-dâl (dim ad-daliad yn daladwy) i'w canslo. Os ydych yn cadw'r cerbyd oddi ar y ffordd mae'n rhaid i chi wneud Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol (HOS) yn adran 3.**

## A Oes gennych hawl i gael ad-daliad?

Byddwn yn rhoi ad-daliad ichi os:

- **mai chi yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol neu flaenorol diwethaf ac ichi werthu, drosglwddo neu allforio'r cerbyd yn ddiweddar.**

  Dylech fod wedi llenwi rhan berthnasol y Dystysgrif Cofrestru (V5CW) a'i hanfon atom. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech amgáu'r rhan berthnasol gyda'r cais hwn. Os nad yw'r V5CW gennych, bydd angen ichi gynnwys llythyr wedi'i lofnodi gyda'r cais hwn. Rhowch rif cofrestru'r cerbyd inni, dyddiad gwerthu neu drosglwyddo'r cerbyd ac enw'r sawl neu'r cwmni y gwnaethoch chi werthu neu drosglwyddo iddynt, neu ddyddiad allforio.

**Neu**,

- **mai chi yw'r ceidwad cofrestredig presennol, sef eich bod wedi cael Tystysgrif Cofrestru (V5CW) ar gyfer y cerbyd hwn gan y DVLA a'ch enw wedi'i argraffu arni, a'ch bod wedi gwneud un o'r canlynol:**

### Gwneud Hysbysiad Oddi-ar-y-ffordd Statudol (HOS)

Os nad ydych yn cadw nac yn defnyddio'ch cerbyd ar ffordd gyhoeddus, rhaid ichi wneud HOS i gadarnhau hyn. Llenwch adran 3 y ffurflen gais hon.

Rhaid ichi beidio â chadw na defnyddio'ch cerbyd ar ffordd gyhoeddus tra bo'r HOS mewn grym. Gellir ystyried garej, dreif a thir preifat yn llefydd sydd oddi-ar-y-ffordd.

Os ydych yn cadw neu'n defnyddio'r cerbyd ar ffordd gyhoeddus, rhaid ichi ei drethu yn gyntaf. Gall hyn gael ei wneud ar unrhyw amser gan ddefnyddio eich V5CW.

Os byddwch yn trethu'ch cerbyd o fewn 21 diwrnod ar ôl gwneud HOS, ni fyddwch yn gymwys am ad-daliad ac ni chewch un.

### Wedi sgrapio'r cerbyd

Dylech fod wedi cymryd eich cerbyd a'i Dystysgrif Cofrestru (V5CW) i Gyfleuster Trin Awdurdodedig (ATF). Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech wneud hynny cyn gwneud cais am ad-daliad. Os nad ydych wedi derbyn Tystysgrif Dinistrio (CoD) fel cadarnhad am y sgrapio, yna mae angen i chi ein hysbysu gan gwblhau adran 9 o'r V5CW a'i ddychwelyd gyda'r cais yma.

Os ydych wedi trosglwyddo'r cerbyd i yswiriwr i'w sgrapio, dylech gwblhau adran 9 o'r V5CW a'i ddychwelyd gyda'r cais yma.

Os nad yw'r V5CW gennych, bydd angen ichi gynnwys llythyr wedi'i lofnodi gyda'r cais hwn. Rhowch fanylion y cerbyd, y cwmni a wnaeth ei sgrapio a'r dyddiad sgrapio.

### Wedi newid i ddosbarth treth di-dâl

Dylech fod wedi newid y dosbarth y cerbyd i ddosbarth treth di-dâl eisoes (megis 'Anabl'). Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech wneud hynny cyn gwneud cais am ad-daliad.

### Wedi dweud wrth yr heddlu bod y cerbyd wedi'i ddwyn

Dylech fod wedi dweud wrth yr heddlu bod y cerbyd wedi'i ddwyn. Os nad ydych wedi gwneud hyn, dylech wneud hynny cyn gwneud cais am ad-daliad. Os yw'r cerbyd wedi ei adfer gyda'r ddisg dreth, bydd angen i chi ddweud wrthym os ydych wedi; gwerthu, trosglwyddo, allforio, sgrapio neu ei gymryd oddi-ar-y-ffordd a gwneud HOS.

**Os na ddywedwch chi wrthym eich bod wedi gwerthu, wedi trosglwyddo, wedi sgrapio, neu wedi allforio'ch cerbyd neu eich bod wedi gwneud HOS ar ei gyfer, ni chewch ad-daliad ac efallai eich bod yn troseddu.**

**Bydd eich cais yn cael ei wrthod os na fydd manylion eich enw yn gwbl gyfartal i'r manylion a ddangosir ar eich V5CW.**

**Os nad ydych wedi derbyn V5CW yn eich enw, nid oes gennych hawl i gael ad-daliad.**

**Ni ddylech wneud cais am ad-daliad os yw'ch cerbyd ar fin cael trosglwyddo neu ddargadw ei rif cofrestru.**

## B Faint o ad-daliad gewch chi?

Er mwyn cael ad-daliad ar gyfer pob mis calendr **llawn** sydd ar ôl ar y ddisg dreth, rhaid ichi lenwi'r ffurflen hon a'i phostio atom **cyn** dyddiad cyntaf y mis ar gyfer dechrau'r ad-daliad.

Os mai disg dreth chwe mis a brynwyd gennych, byddwch wedi talu 10% yn ychwanegol, ac ni chaiff hwnnw'i ad-dalu.

Os dalwyd "Cyfradd Blwyddyn Gyntaf" am ddisg treth gyntaf i gerbyd sydd newydd ei gofrestru, fe gewch ad-daliad ar y gyfradd uchaf yn unig os yw'r cerbyd wedi'i ddwyn, ei sgrapio neu fod dosbarth treth y cerbyd wedi newid i ddosbarth treth ddi-dâl megis 'anabl'.

Os ydy'r cerbyd wedi'i werthu, ei allforio neu eich bod wedi gwneud HOS, bydd eich ad-daliad wedi'i seilio ar gyfradd safonol isel y dreth cerbyd sy'n berthnasol i'r cerbyd. Am fwy o wybodaeth am gyfraddau blwyddyn gyntaf a safonol treth cerbyd ewch i **www.gov.uk/vehicle-tax-rate-tables**

Os oes gennych Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV) ac wedi talu ardoll ddefnyddwr ffyrdd, am wybodaeth am yr ad-daliad ewch i **www.gov.uk/apply-for-tax-disc-refund-form-v14**

## C Os ydych chi'n ddeliwr cerbydau neu'n berchen ar fflyd

Os nad yw'r cerbyd wedi'i gofrestru yn eich enw chi neu os nad oedd wedi'i gofrestru yn eich enw chi, yna, nid oes gennych hawl i gael ad-daliad ac nid oes rhaid i chi wneud HOS.

## Ch I ble y dylech anfon eich cais

Anfonwch eich cais i:

**DVLA**
**Abertawe**
**SA99 1AL**

## D Beth fydd yn digwydd nesaf?

### Cais am ad-daliad

Ar ôl i chi wneud cais am ad-daliad, ac os yw'r cerbyd yn dal i fod yn eich meddiant, ni chewch gadw na defnyddio'r cerbyd ar ffordd gyhoeddus nes iddo gael ei drethu eto. Fel rheol, bydd eich ad-daliad yn cyrraedd o fewn 6 wythnos. Os nad ydych wedi derbyn ymateb i'ch cais am ad-daliad ar ôl 6 wythnos, ffoniwch Ymholiadau Cwsmeriaid DVLA ar 0300 790 6802.

### Llythyr Cydnabod

Os ydych yn defnyddio'r ffurflen hon i wneud HOS neu os ydych wedi dweud wrthym nad chi yw ceidwad y cerbyd bellach, dylech gael llythyr cydnabod, yn cadarnhau inni ddiweddaru'n cofnodion, o fewn 4 wythnos. Anfonir hyn ar wahân i'r ad-daliad.

Os na chewch lythyr cydnabod, gallech ddal i fod yn atebol am y cerbyd ac mae'n bosibl y cewch eich cosbi a/neu'ch erlyn.

Os nad ydych wedi cael y llythyr cydnabod ar ôl pedair wythnos, ffoniwch Ymholiadau Cwsmeriaid DVLA ar 0300 790 6802.

## Dd Rhagor o wybodaeth

Os ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth a gewch, ewch i **www.gov.uk/dvla** i gael gwybodaeth am ein trefn cwynion. Gallwch gysylltu â Ymholiadau Cwsmeriaid DVLA wrth:

Ffonio: 0300 790 6802
Ffacsio: 0300 123 0798

Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8yb a 7yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8yb a 2yp ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro er mwyn sicrhau eu hansawdd ac at ddibenion hyfforddi. Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw a bod gennych ffôn testun, ffoniwch 0300 123 1279. (Nid yw'r rhif hwn yn ymateb i ffonau cyffredin.)

Dewch o hyd i wybodaeth am wasanaethau ar-lein DVLA Ewch i: **www.gov.uk/browse/driving**

## E Diogelu data – rhyddhau gwybodaeth

Byddwn yn cadw'ch manylion ar ein cofrestr cerbydau. Cawn ryddhau'r manylion hyn os oes rhaid inni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut a pha bryd y cawn ryddhau'ch manylion drwy fynd i'r wefan yn **www.gov.uk/data-protection**

This form is obsolete. Do NOT fill in and send to DVLA

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE